



# Pecyn Gwybodaeth Enwebeion Disgrifiad Rôl Ymddiriedolwr

## Etholiad Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGC 2021

### PWY YDYM NI

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ([CGGC](#)) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Yng Nghymru, mae pobl bob amser wedi dod at ei gilydd o'u gwirfodd, nid i wneud arian nac am fod y gyfraith yn dweud bod rhaid iddynt, ond am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth. Dyna pam y ffurfiwyd CGGC. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Fel mudiad cenedlaethol, rydym yn canolbwyntio ar ble y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf ar lefel genedlaethol ledled Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sy'n perfformio rôl debyg ar lefel leol a rhanbarthol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chwaer-fudiadau ledled y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol. Rhan o'n rôl genedlaethol yw gwneud y cysylltiadau hynny.

Rydym yn cysylltu pobl yn y sector wirfoddol gyda'i gilydd a chydâ'r byd tu allan; yn eu galluogi i gyflawni eu nodau drwy ddarparu gwybodaeth, arweiniad, hyfforddiant a chyllid; ac yn dylanwadu ar benderfynwyr er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Rydym yn rhan o [Gefnogi Trydydd Sector Cymru](#), partneriaeth o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol gyda'r nod cyffredin o gryfhau'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid o fudiadau statudol a phreifat sy'n rhannu ein gwerthoedd, ac mae ein rhwydwaith o aelodau yn datblygu'n barhaus.

Mae gennym bron 700 o aelodau. Mae ein haelodaeth yn cynnwys mudiadau gwirfoddol o bob rhan o Gymru. Mae'n cynnwys cymysgedd amrywiol anhygoel o weithgareddau sy'n treiddio i bob rhan o'n cymdeithas. Mae'n cynnwys elusennau, cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau seiliedig ar ffydd, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol. Mae gan ein haelodau yr hawl i fynychu Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol a phleidleisio ynddynt.

Mae CGGC yn derbyn ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o gytundeb cyllido ar y cyd gyda'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru i gyflawni pedwar piler o weithgareddau (llywodraethu da, gwirfoddoli, cyllid cynaliadwy ac ymgysylltu a dylanwadu).

## **RÔL YMDDIRIEDOLWYR**

Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio ymddiriedolwyr elusen fel y rheini sy'n gyfrifol o dan ddogfen lywodraethu'r elusen am reoli gweinyddiaeth a rheolaeth yr elusen. Rôl y bwrdd ymddiriedolwyr yw derbyn asedau gan roddwyr, eu diogelu a'u defnyddio at ddibenion elusennol CGGC. Rhaid i'r bwrdd ymddiriedolwyr bob amser ymddwyn er pennaf fudd CGGC, gan ddangos yr un safon o ddyletswydd gofal y byddai rhywun darbodus yn ei dangos pe bai'n gofalu am faterion rhywun y mae ef neu hi'n gyfrifol amdano. Rhaid i'r bwrdd ymddiriedolwyr ymddwyn fel grŵp ac nid fel unigolion. Yn ogystal â bod yn elusen gofrestredig, mae CGGC yn gwmni cyfyngedig trwy warant, ac mae ymddiriedolwyr CGGC wedi'u cofrestru fel cyfarwyddwyr yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr o 16 o ymddiriedolwyr yn cynnwys:

- Hyd at 12 o ymddiriedolwyr a gafodd eu hethol

- Hyd at bedwar ymddiriedolwr a benodwyd

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n penodi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Trysorydd.

Mae gennym **saith** lle gwag ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd (i'w hethol gan ein haelodau).

## **DYLETSWYDDAU AELOD O'R BWRDD YMDDIRIEDOLWYR**

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr yw corff llywodraethu'r mudiad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol dros lywodraethiant cyffredinol a chyfeiriad strategol CGGC, gan ddatblygu nodau, amcanion a golau'r mudiad yn unol â'i amcanion elusennol, a amlinellir yn yr [Erthyglau Cymdeithasu](#).

Dyma ddyletswyddau aelod o'r bwrdd ymddiriedolwyr:

- sicrhau bod CGGC yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethu (ei Erthyglau Cymdeithasu), y gyfraith elusennau, y gyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill
- sicrhau bod CGGC yn anelu at ei amcanion, fel y'u diffiniwyd yn ei ddogfen lywodraethu
- sicrhau bod CGGC yn defnyddio'i adnoddau i anelu at ei amcanion yn unig. Er enghraifft, ni all wario arian ar weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanion, waeth pa mor werth chweil y gallent fod
- cyfrannu'n weithredol at y bwrdd ymddiriedolwyr drwy roi cyfeiriad strategol pendant i CGGC, gosod polisi cyffredinol, ddiffinio nodau, gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau cytunedig
- sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y mudiad, gan gynnwys bod â pholisiau a gweithdrefnau priodol yn eu lle
- dilyn y trefniadau priodol a ffurfiol ar gyfer penodi, goruchwyllo, cynorthwyo, arfarnu a thalu'r prif weithredwr.
- diogelu enw da a gwerthoedd CGGC
- sicrhau sefydlogrwydd ariannol CGGC

## MANYLEB UNIGOLYN

Mae'n rhaid i bob ymddiriedolwr gael y canlynol:

- ymrwymiad i genhadaeth CGGC
- parodrwydd i fodloni'r gofyniad amser lleiaf
- gonestrwydd
- gweledigaeth strategol
- barn dda, annibynnol
- y gallu i feddwl yn greadigol
- parodrwydd i leisio ei farn a'r gallu i barhau i fod yn annibynnol ar unrhyw ddylanwad gan fudiad neu unigolyn arall
- y gallu i ddeall a derbyn y dyletswyddau cyfreithiol, y cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ymddiriedolaeth
- lefel resymol o ddealltwriaeth o ofynion cyfreithiol, ariannol, archwilio a rheoleiddiol eraill elusen
- y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm ac i wneud penderfyniadau er budd CGGC a'i aelodau
- dealltwriaeth eang o faterion cydraddoldeb a diddordeb brwd mewn dod â chymunedau ynghyd
- ymrwymiad i sicrhau bod y ffocws yn parhau i fod ar y cwsmer wrth ddylunio a rhedeg gwasanaethau
- ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddatblygu gwaith i fodloni nodau strategol CGGC a chynhyrchu incwm sy'n briodol i amcanion CGGC
- Ymwybyddiaeth o'r ffaith bod CGGC yn fudiad dwyieithog ac ymrwymiad at hyn. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol

I gynnal y cydbwysedd o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed gan ymgeiswyr â'r sgiliau a'r profiad yn y meysydd a restrir isod. Gall y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ddeillio o ystod eang o brofiadau gwirfoddol, personol a phrofiadau mewn gwaith cyflogedig.

- Llywodraethu

- Cyllid (bydd angen i'r holl ymddiriedolwyr gael dealltwriaeth sylfaenol o gyfrifon elusen a gellir cynnig hyfforddiant a chymorth rhagorol o ran hyn)
- Recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr
- Buddsoddiadau a mentrau cymdeithasol
- Datblygu aelodaeth
- Cydraddoldeb a hawliau dynol
- Adnoddau Dynol
- Cyfreithiol
- Rheoli grantiau
- Polisi cyhoeddus
- TGCh, seilwaith digidol a chymwysiaid

## **CYMHWYSEDD**

Mae'r Comisiwn Elusennau yn nodi pam na all rhai unigolion fod yn ymddiriedolwyr elusennau. Am ragor o wybodaeth, ewch i [Canllawiau'r Comisiwn Elusennau](#).

## **YMRWYMIAD**

Noder ein bod yn gallu cynnal cyfarfodydd ar-lein drwy fideo-gynadleda gan ddefnyddio Microsoft Teams (neu blatfform arall). Disgwylir i ymddiriedolwyr:

- fynychu sesiwn gynefino (tua 2 awr) cyn eu cyfarfod Bwrdd cyntaf. Fel arfer, bydd hwn yn cael ei gynnal ym mis Ionawr.
- mynychu pob un o'r pedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn (tua 2 awr) a gynhelir yn ystod oriau swyddfa. Mae cyfarfod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd ym mis Chwefror yn gyfarfod diwrnod llawn.
- mynychu pedwar cyfarfod gweithgor y Bwrdd y flwyddyn (1½ awr yr un)
- cefnogi datblygiad CGGC drwy:
  - Ymuno ag un o ddau is-bwyllgor y Bwrdd (pan fydd lle gwag yn bodoli)
  - Bod yn Gadeirydd/Is-gadeirydd ar un o baneli grantiau/cronfeydd CGGC (pan fydd lle gwag yn bodoli)

- Cefnogi'r uwch dîm rheoli gyda darnau amrywiol o waith drwy grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl yr angen
- mynychu cyfarfod cyffredinol blynyddol (AGM) CGGC, a gynhelir yn ystod oriau swyddfa ym mis Tachwedd. Mae'r lleoliad yn amrywio bob blwyddyn rhwng y De a'r Gogledd. Efallai y bydd angen aros dros nos

## **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Mae CGGC yn ymrwymedig i gydraddoldeb a chynrychioli holl amrywiaeth y gymuned.

Mae gennym grŵp mewnol o staff ac ymddiriedolwyr sy'n cefnogi datblygiad cydraddoldeb ac amrywiaeth ar ran CGGC, yn fewnol ac yn allanol. Mae ein hymrwymiaidau'n cynnwys penodi aelod o staff (Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) a Thîm uwch-reolwyr ac Ymddiriedolwr arweiniol.

## **TELERAU PENODI**

Fel arfer, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd a gallant wasanaethau am hyd at naw mlynedd.

## **TREULIAU**

Mae bod yn aelod o'r Bwrdd yn rôl wirfoddol ddi-dâl. Bydd mân dreuliau rhesymol yn cael eu talu yn unol â pholisi Teithio a Chynhaliath CGGC. Efallai y bydd angen teithio ychydig ac aros dros nos.

## **SUT I YMGEISIO**

1. Er mwyn gwneud cais am le ar y Bwrdd drwy broses ethol 2021 y Bwrdd, rhaid i'r holl ymgeiswyr gael eu henwebu gan aelod o CGGC (rhaid i'r aelod lenwi Ffurflen Enwebu CGGC) cyn i chi gyflwyno cais. Unwaith y byddwn ni'n derbyn enwebiad ar eich cyfer, byddwn ni'n cysylltu â chi drwy e-bost.

2. Pan fyddwn ni wedi derbyn eich enwebiad, bydd disgwyl i chi gyflwyno'r canlynol:
- (a) CV yn cynnwys hanes cyflogaeth neu brofiad gwirfoddoli/byw os nad ydych wedi bod mewn cyflogaeth â thâl, a manylion dau ganolwr.
  - (b) Datganiad personol o ddau dudalen ar y mwyaf, sy'n dangos sut byddai eich sgiliau a'ch profiadau, yn eich barn chi, yn eich galluogi i fodloni rôl Ymddiriedolwr.
  - (c) Crynhoad (cyfanswm o 200 gair) a fydd yn ymddangos ar wefan CGGC yn ystod yr etholiad/pleidlais (yn amlinellu eich sgiliau a'ch profiad, ynghyd â nodi pam rydych chi eisiau ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr trwy ateb y cwestiynau canlynol: **Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio amdanaf i fod yn Ymddiriedolwr?**

Os hoffech drafod y rôl ymhellach mewn sgwrs anffurfiol â Ruth Marks, Prif Weithredwr, cysylltwch â Tracey Lewis, Ysgrifennydd y Cwmni, drwy anfon e-bost at [tlewis@wcva.cymru](mailto:tlewis@wcva.cymru) neu ffonio 02920 431734 yn y lle cyntaf.

## **AMSERLEN I YMGEISWYR**

Dylai eich CV, datganiad personol a'ch crynodeb (i'w arddangos ar ein gwefan) gyrraedd CGGC **erbyn 5 pm dydd Gwener 10 Medi 2021**. Gellir cyflwyno ceisiadau drwy e-bost ([tlewis@wcva.cymru](mailto:tlewis@wcva.cymru)) neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Tracey Lewis (Ysgrifennydd y Cwmni)  
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Tŷ Baltig  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd, CF10 5FH

Bydd ein haelodau yn gwneud y penderfyniad terfynol drwy'r broses bleidleisio\* ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Tachwedd 2021. Mae CGGC yn cadw'r hawl i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar unrhyw ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.

**\*Bydd angen i'n haelodau fwrw pleidlais os oes mwy nag saith ymgeisydd ar y rhestr fer.**